GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

22 Tachwedd 2010

Rhodd Clwb 'Zipper' i Glinig Ysbyty Maelor

Ar ddydd Mercher, 24 Tachwedd, bydd aelodau o Glwb 'Zipper' Wrecsam (grŵp ardal Wrecsam o Gymdeithas Cleifion Prydain) yn ymweld ag Ysbyty Maelor Wrecsam i gyflwyno dau ddadansoddwr Coagucheck XS Plus i Adran Haematoleg yr ysbyty.

Defnyddir y dadansoddwyr i brofi effaith Warfarin ar rai cleifion sy'n dod i'r Clinig Gwrthgeulo yn yr ysbyty. Mae Warfarin yn gyffur sy'n lleihau'r risg o geuladau gwaed rhag ffurfio ac fe'i defnyddir i atal cyflyrau megis strôc a thrombosis gwythïen ddofn mewn cleifion sydd mewn perygl. Gall y dadansoddwr wneud y prawf ar ddim ond un diferyn o waed gan roi canlyniad mewn tri munud. Felly bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion sydd angen canlyniadau ar frys os oes pryderon penodol am eu cyflwr.

Mae'r peiriant yn ddefnyddiol hefyd i brofi lefelau Warfarin mewn plant gan mai dim ond pigiad pin ar un o'r bysedd sydd ei angen i gael y sampl gwaed yn hytrach na gorfod cymryd sampl llawn, sy'n gallu bod yn annifyr.

Dywedodd Dr David Watson, Haematolegydd Ymgynghorol:

"Bydd y peiriannau newydd yn cymryd lle offer hŷn sy'n dechrau mynd ar ôl yr oes. Mae'r peiriannau'n costio tua £600 yr un ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r Clwb 'Zipper' am gefnogi hyn. Maen nhw wedi prynu peiriannau i ni yn y gorffennol ac rydym yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth barhaus yn fawr iawn."

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Cymdeithas Cleifion Prydain (BCPA) ydy'r grŵp cefnogi annibynnol i gleifion a theuluoedd/gofalwyr cleifion efo cyflyrau'r galon yn y DU. Mae nifer o'u grwpiau ardal wedi cymryd yn enw anffurfiol 'clwb zipper' fel cyfeiriad ysmala at batrwm y graith ar y frest ar ôl llawfeddygaeth gardiaidd, sy'n debyg i sip.

Cydlynydd Grŵp Wrecsam ydy Mr Alun Ellis fydd ar gael i siarad efo gohebwyr yn y cyflwyniad. Bydd hyn yn digwydd am 11:00am ddydd Mercher 24 Tachwedd ym mhrif gyntedd yr ysbyty a bydd Dr Watson a Phrif Nyrs Val Tudor o'r Clinig Gwrthgeulo yno. Bydd croeso i chi dynnu lluniau.

22 November 2010

Zipper Club donation to Maelor Hospital Clinic

On Wednesday 24th November members of the Wrexham Zipper Club (the Wrexham area group of the British Patients Association) will be visiting Wrexham Maelor Hospital to present two Coagucheck XS Plus analysers, to the Hospital's Haematology Department.

The analyser is used to test the effect of Warfarin in selected patients attending the Anticoagulant Clinic at the Hospital. Warfarin is a drug which reduces the likelihood of blood clots forming and is used to help prevent conditions such as strokes and deep vein thrombosis in at-risk patients. The analyser can carry out the test on just a single drop of blood, and provides results within three minutes and so will be used for patients where results are required urgently if there are particular concerns over their condition.

The machine is also useful for testing Warfarin levels in children as only a pin prick is needed on one of the fingers to get the blood sample, rather than having to take a full sample which they can find upsetting.

Dr David Watson, Consultant Haematologist, said:

"The new machines will replace some older equipment that is becoming outdated. The machines costs around £600 each, and we are very grateful to the Zipper Club for supporting their replacement. They have bought us machines in the past and we really do appreciate their continuing support."

ENDS

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Notes to editors

The BCPA is the independent support group for patients, and the families/carers of patients, with a heart condition in the UK. A number of their area groups have taken the informal name 'zipper club' as a wry reference to the pattern of scarring left on the chest after undergoing cardiac surgery, which can resemble a zip fastener.

The Wrexham Group is coordinated by Mr Alun Ellis who will be available to talk to reporters at the presentation. This will take place at 11:00am in the main entrance foyer at the Hospital on Wednesday 24th November, and will be attended by Dr Watson and Sister Val Tudor from the Anticoagulant Clinic. Photographic coverage would be welcome.